

Atodiad A

CYFARWYDDYD I BOB AWDURDOD LLEOL A CHORFF LLYWODRAETHU POB YSGOL WIRFODDOL A GYNORTHWYIR AC YSGOL SYLFAEN YNG NGHYMURU O DAN ADRAN 32B O DDEDDF ADDYSG 2002 AR GYFER DYDDIADAU TYMHORAU BLWYDDYN YSGOL 2025/26

CYFARWYDDYD

- 1) Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a nodir yn y Memorandwm Esboniadol¹, yn fodlon y dylai dyddiadau'r tymhorau a bennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sylfaen gael eu diwygio i gyd-fynd â'r dyddiadau a nodir yn yr Atodlen.
- 2) Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriad priodol ar y dyddiadau a gynigiwyd ar gyfer y tymhorau, ac wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 3) Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo pob awdurdod lleol yng Nghymru a chorff llywodraethu pob ysgol sylfaen ac ysgol wirfoddol a gynhelir² yng Nghymru i bennu dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2025/2026 yn unol â'r dyddiadau a nodir yn yr Atodlen i'r cyfarwyddyd hwn.
- 4) Daw'r cyfarwyddyd hwn i rym am 9am ar y diwrnod ar ôl iddo gael ei lofnodi.

Llofnodwyd gan.....

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 2024

¹ Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi diben cyhoeddi'r cyfarwyddyd a chanlyniadau'r ymgynghoriad yn ei gylch, ond nid yw'n ffurfio rhan o elfen weithredol gyfreithiol y cyfarwyddyd hwnnw. Mae'r rhesymau polisi hyn wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori. Caiff y memorandwm esboniadol ei baratoi ar ôl i'r ymarfer ymgynghori gael ei gwblhau a chyn i'r cyfarwyddyd gael ei gyhoeddi.

² Drwy rinwedd adran 212(5) o Ddeddf Addysg 2002, mae i "ysgolion sylfaen" ac "ysgolion gwirfoddol a gynhelir" yr un ystyr â'r hyn a roddir iddynt yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.